



Swyddog Rhyddid Gwybodaeth
Awdurdod Cyllid Cymru
Blwch Post 108
Merthyr Tudful
CF47 7DL
E-bost: data@acc.llyw.cymru

NAME
ADDRESS

24 Mawrth 2025

Annwyl xxxx

WRA-FOI-0084 – Cyswllt â'r diwydiant tybaco

Diolch i chi am eich cais, a dderbyniais ar 14 Mawrth 2025. Gwnaethoch ofyn am:

Restr o unrhyw un a'r holl gysylltiadau mae eich sefydliad a/neu staff wedi eu cael gyda British American Tobacco, Imperial Brands, Japan Tobacco International, Philip Morris International, yn ogystal ag unrhyw gwmnïau tybaco domestig neu drawswladol eraill neu unrhyw un sy'n cynrychioli'r diwydiant tybaco gan gynnwys is-gwmnïau'r diwydiant tybaco.

Gwybodaeth ar gyfer y cyfnod o 23 Ebrill 2023 - 10 Mawrth 2025. Byddai'r cyswllt yn bennaf yn cynnwys mynychu neu drefnu cyfarfodydd neu ddiwyddiadau, ac ymateb i ohebiaeth neu alwadau ffôn.

Rhannwch y wybodaeth yn ôl:

- Cwmni tybaco neu enw'r cynrychiolydd
- Dyddiad y cyswllt/cysylltiadau
- Math o gyswllt (cyfarfod, e-bost, llythyr, galwad ffôn, neges destun/ap neges neu alwad fideo, e-gerdyn neu unrhyw fath arall o gyfathrebiad electronig)
- Ymhle y bu'r cyswllt, os yn berthnasol
- Pwrpas y cyswllt
- Canlyniad y cyswllt, gan gynnwys os na gymerwyd unrhyw gamau

Yn dilyn chwilio ein cofnodion dan enwau'r sefydliadau a restrwyd gennych uchod sydd o fewn y cyfnod rhwng 23 Ebrill 2023 -10 Mawrth 2025, rwyf wedi sefydlu nad ydym wedi cael unrhyw gysylltiad gan y sefydliadau rydych wedi eu henwi. Sylwch hefyd na fyddem yn ymwybodol o unrhyw is-gwmnïau neu gynrychiolwyr gan nad yw'n rhan o wybodaeth y byddai angen i ni ei chasglu.

Os ydych yn anfodlon â'r ffordd y mae Awdurdod Cyllid Cymru wedi ymdrin â'ch cais, gallwch ofyn am adolygiad mewnol o fewn 40 diwrnod gwaith i ddyddiad yr ymateb hwn. Dylid cyfeirio ceisiadau am adolygiad mewnol at Swyddog Rhyddid Gwybodaeth Awdurdod Cyllid Cymru yn:



Awdurdod Cyllid Cymru
Welsh Revenue Authority

Awdurdod Cyllid Cymru
BLWCH POST 108
MERTHYR TUDFUL
CF47 7DL
neu E-bostiwch: data@acc.llyw.cymru

Cofiwch ddyfynnu'r cyfeirnod uchod os gwelwch yn dda.

Mae gennych hefyd hawl i gwyno wrth y Comisiynydd Gwybodaeth. Gellir cysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth yn:

Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth (Cymru)
Tŷ Churchill
17 Ffordd Churchill
Caerdydd
CF10 2HH

Ffôn: 029 2067 8400 / 0303 123 1113

E-bost: casework@ico.org.uk

Gwe: ico.org.uk

Fodd bynnag, sylwch na fydd y Comisiynydd fel arfer yn ymchwilio i gŵyn hyd nes ei bod wedi bod drwy ein proses adolygu mewnol ni.

Yn gywir

Swyddog Rhyddid Gwybodaeth